

Asesiadau dechreuol o blant mewn dosbarthiadau derbyn yn ysgolion, 2017/18: Nodiadau

Cyd-destun

Polisi/Gweithredol

Ers 2016, mae plant yng Nghymru wedi'u hasesu drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu chwe wythnos gyntaf ar ôl dechrau mewn ysgol gynradd (Dosbarth Derbyn). Defnyddir yr asesiadau hyn i bennu cam datblygu a diddordebau'r plentyn yn ôl [Proffil a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen](#). Cynhelir y rhan fwyaf o asesiadau pan fydd y plentyn yn cyrraedd dosbarth derbyn yn 4 oed, er bod ysgolion yn cael eu hannog i asesu'r plentyn wrth iddynt fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen, pa bynnag oedran cynharach a allai fod.

Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar gyfres o sylwadau pwylllog am bob plentyn wrth iddynt ddechrau mewn Dosbarth Derbyn. Mae pedwar maes dysgu dan sylw: Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (yn y Gymraeg neu'r Saesneg); Datblygiad Mathemategol; Datblygiad Corfforol; Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol. Mae'r ffordd hon o weithio'n helpu ymarferwyr i ddeall dull dysgu a diddordebau plentyn, yn ogystal â'i gam datblygu.

Mae'r asesiadau dechreuol yn rhan o'r Cyfnod Sylfaen, sy'n cwmpasu'r cyfnodau a arferai gael eu galw'n Flynyddoedd Cynnar (o 3 i 5 oed) a Chyfnod Allweddol 1 (o 5 i 7 oed) y Cwricwlwm Cenedlaethol er mwyn creu un cyfnod addysg ar gyfer plant rhwng 3 a 7 oed.

Ffynhonnell a chwmpas y data

Data lefel disgybl yw'r asesiadau decheuol, a gasglwyd yn electronig gan ysgolion a gynhelir, sydd o dan ofal eu hawdurdod lleol. Nid ydym yn casgly data o ysgolion annibynnol oherwydd nid yw'r Cyfnod Sylfaen yn statudol i ysgolion o'r fath. Y Gwasanaeth Gwybodaeth a Dadansoddi o fewn Llywodraeth Cymru sy'n trefnu i gasglu'r data.

Mae'r Wybodaeth yn y Pennawd Ystadegol hwn yn dangos y dosbarthiad o asesiadau'r camau datblygiad disgyblion dosbarth derbyn. I fod yn gyson gyda'r [ymgyngoriad](#) ar gyhoeddiadau asesiadau athrawon Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 yn y dyfodol, ni fydd y pennawd hwn yn cyhoeddi data ar lefel ysgol, awdurdod na chonsortia.

Yn y dyfodol, fe fyddwn yn edrych ar gyhoeddi data ar gyfer disgyblion sydd a'r hawl i brydau ysgol am ddim a'r rhai sydd a dim hawl.

Diffiniadau

Asesiadau dechreuol

Ers 2016, mae plant yng Nghymru wedi'u hasesu drwy Broffil y Cyfnod Sylfaen, yn ystod eu chwe wythnos gyntaf ar ôl dechrau mewn ysgol gynradd (Dosbarth Derbyn). Defnyddir yr asesiadau hyn i bennu cam datblygu a diddordebau'r plentyn yn ôl [Proffil a Fframwaith y Cyfnod Sylfaen](#). Cynhelir y rhan fwyaf o asesiadau pan fydd y plentyn yn cyrraedd dosbarth derbyn yn 4 oed, er bod ysgolion yn cael eu hannog i asesu'r plentyn wrth iddynt fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen, pa bynnag oedran cynharach a allai fod.

Cam Datblygiad

Mae'r data yn adlewyrchu'r ystod eang o aeddfedrwydd datblygiadol a ddisgwylir ar gyfer yr oedran hwnnw, sydd o fewn yr ystod safonol ar gyfer plant wrth ddechrau yn yr ysgol - yn enwedig o ystyried oed amrywiol plant sy'n dechrau'r ysgol. Y disgwyliad cyffredinol yw bod rhan fwyaf o blant 4 oed yn cael eu hasesu yng nghanam datblygiad 2, gyda niferoedd arwyddocaol yng nghanam 1 a 3 ym mhob maes dysgu. Ceir wybodaeth ychwanegol ar dudalen 12 o'r [Proffil y Cyfnod Sylfaen: canllawiau i ymarferwyr](#)

Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Perthnasedd

Defnydd allweddol y data hwn yw fel offeryn ffurfiannol i helpu ymarferwyr i ddeall arddull a diddordebau dysgu'r plentyn yn ogystal â'u cam datblygiad. Yn y dyfodol, bwriadwn ddefnyddio'r data hwn fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth i gefnogi [Ffyniant i Bawb](#), strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WFG)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant i Gymru sef Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, gyda chymunedau cydlynol a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol" sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn [adroddiad Llesiant Cymru](#).

Gwybodaeth bellach am [Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

Gallai'r ystadegau a ddefnyddir yn y datganiad hwn ategu'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrdau gwasanaethau lleol mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant a'u cynlluniau llesiant lleol.

Cywirdeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos ag ysgolion ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod data yn cael eu dilysu cyn i dablau gael eu cyhoeddi. Caiff y data eu casglu i ffurflen electronig a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru drwy DEWi, system ar-lein ddiogel i drosglwyddo data a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses yn cynnwys sawl cam awtomatig lle caiff y data eu dilysu a'u gwirio i sicrhau eu bod yn gwneud synnwyr, er mwyn sicrhau data o ansawdd uchel.

Amseroldeb a phrydlondeb

Roedd DEWi ar gael i lanlwytho ffeiliau ar 8 Mai 2018, a gofynnwyd i ysgolion a gynhelir cyflwyno data ar gyfer pob disgybl ar y gofrestr ar 8 Mai. Caeodd y Cyfnod Casglu data ar 29 Mehefin 2018.

Hygyrchedd ac eglurder

Caiff y Pennawd Ystadegol hwn ei rag-gyhoeddi ac yna'i gyhoeddi ar adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru. Yn y dyfodol fe fyddwn yn gobeithio ychwanegu tablau manylach ar StatsCymru, gwasanaeth rhad ac am ddim sy'n caniatáu i bobl weld, golygu a lawrlwytho data.

Cymaroldeb a chydlyniaeth

Casglwyd data lefel disgybl o ysgolion a gynhelir am y tro cyntaf yn 2015/16. Nid yw'r pennawd ystadegol yma yn cyflwyno data dros amser oherwydd yr amrywioldeb naturiol yn aeddfedrwydd datblygiadol a ddisgwylir ar gyfer yr oedran hwnnw. Mae hyn o fewn yr ystod safonol ar gyfer plant wrth ddechrau yn yr ysgol, yn enwedig o ystyried oed amrywiol plant sy'n dechrau'r ysgol

Statws Ystadegau Gwladol

Dyma'r cyhoeddiad cyntaf o'r ystadegau yma, ac felly nid ydynt wedi'u hasesu gan yr [Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig](#) i'w dynodi'r fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau](#).

Ar hyn o bryd, mae'r ystadegau yn cael eu trin fel ystadegau swyddogol. Er hynny, dylai pob ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw i gynnal cydymffurfiad â'r safonau a ddisgwylir o Ystadegau Gwladol. Os ydym yn pryderu os yw'r ystadegau yma yn dal i gwrdd â'r safonau priodol, byddwn yn trafod hyn yn brydlon gyda'r Awdurdod.

Rydym yn bwriadu cyflwyno'r ystadegau hyn i'r Awdurdod Ystadegau ar gyfer asesu yn erbyn y safonau sy'n ofynnol o Ystadegau Gwladol. Nid yw dyddiad ar gyfer hyn wedi'i benderfynu eto.

Manylion pellach

The document is available at: [Asesiadau dechreuol o blant mewn dosbarth derbyn](#)

Cyhoeddir data ar gyfer deilliannau yn y pynciau craidd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 yn flynyddol yn y datganiad ystadegol [Deilliannau Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2 a 3](#). Yn yr un modd, cyhoeddir deilliannau ar gyfer y pynciau di-graidd yn [Asesiadau athrawon y cwricwlwm cenedlaethol o'r pynciau di-graidd](#).

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn unigryw I Gymru a nad oes data cynharol ar gael ar gyfer gwledyll eraill.

Cael gafael ar y data yn electronig

Cyhoeddir tablau a siartiau wrth ochr y pennawd ystadegol yma. Gweler [Asesiadau dechreuol o blant mewn dosbarth derbyn](#). Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy ofyn; cysylltwch a ystadegau.ysgolion@llyw.cymru os gwelwch yn dda.

Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

